# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 7 Medi 2021 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 13 Medi 2021 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 20 Medi 2021 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Gareth Thomas
Aelod Cabinet Datblygu'r Economi

**PWNC** Cyflwyno cais Cynllun Glannau i Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth Prydain

**PENDERFYNIAD –**

Cyflwyno cais Cynllun Glannau i Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth Prydain

a) Cefnogi'r bwriad o dargedu Cronfa Codi'r Gwastad (Levelling Up), Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer datblygu a gweithredu pecyn o brosiectau o dan Cynllun Adfywio'r Glannau;
b) Awdurdodi'r Pennaeth Cyllid ar y cyd a Phennaeth Economi a Chymuned i arwyddo llythyr cynnig ar gyfer y cynllun;
c) Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned i sefydlu strwythur rheoli ar gyfer y cynllun ar y cyd a Phennaeth Cyllid, Pennaeth Cyfreithiol, Pennaeth Amgylchedd, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Phennaeth YGC.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Parc Cenedlaethol Eryri
Aelodau Lleol

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cyng. Gareth Thomas<br>Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Esyllt Rhys Jones<br>Rheolwr Rhaglenni Adfywio |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 7fed o Fedi 2021 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc :** Cyflwyno cais Cynllun Glannau i Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth Prydain

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

a) Cefnogi'r bwriad o dargedu Cronfa Codi'r Gwastad (Levelling Up), Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer datblygu a gweithredu pecyn o brosiectau o dan Cynllun Adfywio'r Glannau;
b) Awdurdodi'r Pennaeth Cyllid ar y cyd a Phennaeth Economi a Chymuned i arwyddo llythyr cynnig ar gyfer y cynllun;
c) Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned i sefydlu strwythur rheoli ar gyfer y cynllun ar y cyd a Phennaeth Cyllid, Pennaeth Cyfreithiol, Pennaeth Amgylchedd, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol a Phennaeth YGC.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Ar 18 o Fehefin eleni, bu i'r Adran Economi a Chymuned gyflwyno cais ar gyfer Cynllun Adfywio'r Glannau i'r Gronfa Codi'r Gwastad gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Roedd yr amserlen i gyflwyno'r pecyn yn dynn a cafodd ei gyflwyno yn ddarostyngedig i dderbyn taflen benderfyniad.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Yn ddiweddar lansiodd Llywodraeth y Deyrnas Unedol Gronfa Codi'r Gwastad. Mae'n un o becyn o gronfeydd sydd wedi eu lansio ganddynt yn sgil gadael Ewrop a'r Cronfeydd Strwythurol oedd ar gael bryd hynny.

Dros gyfnod 2021/22 - 2024/25 mae hyd at £4.8bn o gyllid cyfalaf ar gael gyda Llywodraeth y DU yn gwarantu isafswm o £240m (5%) i Gymru. Uchafswm ceisiadau yw £20m gyda phosibilrwydd i gynlluniau trafnidiaeth fod hyd at £50m). Mae'n broses ymgeisio gystadleuol drwy'r DU.

Nod y gronfa yw buddsoddi mewn cynlluniau isadeiledd lleol, gweledol ac o ansawdd yn y meysydd trafnidiaeth, adfywio a chanol trefi ynghyd a buddsoddiadau diwylliannol. Ceir pwyslais arbennig at ardaloedd ôl-ddiwydiannol, trefi difreintiedig a chymunedau arfordirol.

Roedd disgwyliad i'r cynlluniau a gaiff eu cyflwyno fod yn aeddfed a bydd y ceisiadau yn cael eu hasesu yn erbyn nodweddion yr ardal (h.y. Os yw'r ardal yng nghategori blaenoriaeth 1, 2 neu 3), y gallu i weithredu, blaenoriaeth leol, cyswllt strategol ynghyd a gwerth am arian. Mae Gwynedd, yn unol a'r Rhestr Categoriau Blaenoriaeth Awdurdodau Lleol yn yr haen blaenoriaeth isaf sef Categori 3.

<u>Ystyriaethau'r Gronfa</u>
Mae i'r Gronfa 3 prif thema.

- ***Buddsoddiadau trafnidiaeth*** - trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol, pontydd, lonydd bws, gwella ffyrdd lleol, chynnal a chadw strwythurau mawr a gwelliannau hygyrchedd.
- ***Buddsoddi mewn adfywio canol trefi*** - uwchraddio adeiladau a seilwaith, adfywio safleoedd tir llwyd, buddsoddi mewn seilwaith cymunedol diogel a lleihau troseddu.
- ***Buddsoddi diwylliannol*** - cynnal, adfywio neu gael defnydd creadigol arall o amgueddfeydd, orielau, atyniadau ymwelwyr (a mannau gwyrdd cysylltiedig) ac asedau treftadaeth.

Yn unol â'r canllawiau, roedd ystyriaethau pellach yn gysylltiedig a'r math o geisiadau oedd modd eu cyflwyno megis aeddfedrwydd, gwerth, cyfnod cychwyn a cwblhau'r gwariant, niferoedd o safleoedd y gellir eu cynnwys mewn un cais ynghyd a chydariannu (o leiaf 10%).

<u>Cynllun Blaenoriaeth Cyngor Gwynedd</u>

Yn unol a'r themâu a'r materion gweithredol yn gysylltiedig a'r Gronfa cynhaliwyd ymarferiad sgopio traws adrannol i edrych ar bosibiliadau ymarferol. Dylid nodi fod lefel y diddordeb a'r cysyniadau a drafodwyd yn eang ond i gydymffurfio a gofynion gweithredol y gronfa dim ond nifer fychan o gynlluniau oedd yn ymarferol i'w hystyried ar sail eu bod yn ddigon aeddfed, o fewn y gyllideb, yn gael gweithredu o fewn amserlen dynn ac yn ymateb yn uniongyrchol i'r meini prawf.

Derbyniwyd arweiniad gan Aelodau Seneddol a'r Tim Arweinyddiaeth (25ain o Fai) i symud ymlaen gyda phecyn Cynllun Adfywio'r Glannau. Yn seiliedig ar yr arweiniad, cyflwynwyd cais i'r Gronfa Codi'r Gwastad, ar y 18fed o Fehefin.

<u>Cynllun Adfywio'r Glannau</u>

Mae Cynllun Adfywio'r Glannau yn gynllun sydd yn ymateb i thema blaenoriaeth ***buddsoddi mewn adfywio canol trefi*** y Gronfa. Mae'n becyn gwerth ychydig dros £24M i adfywio canol tair tref wledig a ddifreintiedig o fewn y Sir (Bangor, Abermaw ac Y Bala) drwy gyplysu cynlluniau gwarchod

y glannau ynghyd a datblygu ac adfywio y ffabrig drefol. Y nod yw bod y gwaith o warchod ac adfywio amgylcheddol yn y trefi yn arwain at adfywiad economaidd, buddsoddiadau hir dymor a chreu cyflogaeth.

Mae’r dyraniadau ariannol fel a ganlyn:

| Tref | Cynllun | Cost y Cynllun |
|---|---|---|
| **Bangor** | Gwarchod Bae Hirael | £3,238,329 |
| | Cyswllt gyda Canol y Ddinas, Port Penrhyn a’r Pier | £3,500,000 |
| **Abermaw** | Gwarchod yr Arfordir | £2,720,000 |
| | Cyswllt gyda’r Phont Reilffordd | £4,000,000 |
| | Gwelliannau Amgylcheddol Canol y Dref | £3,500,000 |
| **Y Bala** | Ymestyniad Rheilffordd y Llyn i ganol y dref | £5,535,619 |
| | Gwelliannau Amgylcheddol Canol y Dref | £1,000,000 |
| **Rheolaeth Prosiect** | | £650,000 |
| **Cyfanswm** | | **£24,143,948** |

Disgwylir i’r cynllun gyfrannu tuag at allbynnau a chanlyniadau megis y rhai canlynol:

- Gwelliannau i amgylchedd a mannau cyhoeddus o fewn y trefi;
- Canol trefi a glannau wedi eu gwarchod;
- Atyniad newydd wedi ei greu;
- Cysylltiadau trafnidiaeth Gwyrdd wedi eu creu a datblygu;
- Swyddi wedi eu creu a’u gwarchod;
- Gwariant yn yr economi leol a gan ymwelwyr yn cynyddu;
- Adeiladau gwag yn dod yn ôl i ddefnydd;

Mae Asesiad Risg cyflawn wedi ei greu ar gyfer y Cynllun. Mae’r isod y crynhoi y risgiau sydd wedi eu hadnabod i’r Cyngor

- Methu sicrhau gwariant yn y flwyddyn ariannol bresennol sydd yn un o ofynion y Gronfa;
- Methu gwario’r arian yn ei gyfanrwydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2023/24 sydd yn un o ofynion y Gronfa;
- Diffyg cydariannu ar gyfer y Cynllun;
- Anawsterau yn ymwneud a materion tir;
- Anawsterau mewn derbyn y caniatadau statudol angenrheidiol;
- Problemau yn codi yn sgil cytundebau gyda trydydd parti i wireddu y cynllun (megis Ymddiriedolaeth Rheilffordd Bala).

Disgwylir derbyn dyfarniad o Gronfa Codi’r Gwastad yn yr Hydref.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Ymgynghorwyd a:

Parc Cenedlaethol Eryri

Aelodau Lleol

Prif Swyddog Cyllid – Cadarnhaf fod y ffigyrau ariannol ar y daflen yn amcangyfrifon teg. Hefyd, nid yw'r penderfyniad a geisir yma'n creu ymrwymiad ychwanegol i'r Cyngor. Felly, rwy'n cefnogi'r cais i dargedu Cronfa Codi'r Gwastad oherwydd y budd i'r Economi leol os yw'r cais yn llwyddiannus.

Swyddog Monitro – Mae'r gyfundrefn sydd wedi ei sefydlu gan lwydoraeth y DU a'g agweddau eithaf penodol ynglyn ac ymgeisio am y gefnogaeth. Yn benodol y drefn blaenoriaethu a chymhwyso. Mae'r adroddiad yn amlyghu hyn ac yn darparu trefn brodol ar gyfer derbyn a gweinyddu unrhuyw gynnig a dderbynir.

Aelod/au Lleol -